


# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
## Mannau digwyddiad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.


T 0845 010 5500
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk


Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk
Ffôn: 0845 010 5500


©Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae cynnal digwyddiad neu arddangosfa ar ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhoi'r cyfle ichi godi proffil eich sefydliad a'r materion a'r pryderon sy'n berthnasol iddo. P'un a yw rhywbeth yn effeithio ar eich tref neu bentref, neu'n fater sydd o bwys i'ch grŵp buddiant neu gymdeithas, mae'r mannau sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cynnal digwyddiadau yn eich galluogi i wneud y mwyaf o ystâd y Cynulliad a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed.

## Y Pierhead

Mae'r Pierhead yn adeilad rhestredig gradd 1 ar ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae'n un o dirnodau mwyaf adnabyddus Caerdydd, ac fe'i hadeiladwyd ym 1897 yn bencadlys Cwmni Doc Bute. Mae'r Pierhead yn un o adeiladau mwyaf eiconig y ddinas, ac mae wedi'i leoli ym Mae Caerdydd, sydd bellach wedi ei adfywio. Mae nifer o ystafelloedd trawiadol yn yr adeilad y gellir cynnal digwyddiadau ynddynt.









## Neuadd Fawr y Pierhead

**Lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal:**

– Cynadleddau;
– Derbyniadau;
– Darlithoedd;
– Ciniawau nos;
– Digwyddiadau rhyngweithio.

**Capasiti:**

Derbyniad lle bydd pobl yn sefyll: 140
Adloniant/stondinau: 120
Eisteddle ar ffurf theatr: 120
I fwyta: 100

**Cyfleusterau:**

– Llwyfan 6x2 medr;
– Meicroffonau di-wifr;
– Meicroffonau i'w defnyddio â chlustffonau;
– Darllenfa â meicroffon;
– Peiriant CD a DVD;
– Chwe thaflunydd Panasonic PT-D4000E HD annibynnol, sy'n gallu taflunio lluniau, sioe sleidiau, cyflwyniadau a ffilmiau;
– Consol cymysgu sain digidol Yamaha 01V96;
– Is-gymysgwr sain Yamaha MG102C;
– System seinydd stereo;
– Pedwar meicroffon i'w clipio ar ddillad;
– Pum meicroffon i'w rhoi ar ben bwrdd.

**Gellir cynnal digwyddiadau yn y Pierhead:**

Dydd Llun a Dydd Gwener 09.00–16.30
O Ddydd Mawrth i Ddydd Iau 09.00–20.00

**Mesuriadau Prif Neuadd y Pierhead**

15 x 13 Metr

**Mynediad**

Mae pob llawr yn y Pierhead yn gwbl hygyrch. I wneud cais i gynnal arddangosfa neu ddigwyddiad yn y Pierhead, ffoniwch y llinell archebu: 0845 010 5500.









## Oriel y Dyfodol yn y Pierhead

Mae Oriel y Dyfodol yn y Pierhead yn ofod sydd wedi'i neilltuo ar gyfer arddangosfeydd, lansiadau bach a derbyniadau cyn cinio. Mae'r amser a ganiateir ar gyfer arddangosfa wedi'i gyfyngu i un mis.



## Oriel y Dyfodol yn y Pierhead

**Lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal:**
– Arddangosfeydd;
– Derbyniadau;
– Digwyddiadau rhyngweithio.

**Mae Oriel y Dyfodol ar gael:**
Dydd Llun a Dydd Gwener 10.30–16.30
O Ddydd Mawrth i Ddydd Iau 10.30–20.00

**Mesuriadau Oriel y Dyfodol:**
14 x 6 metr

**Capasiti:**
Mae’r ystafell yn gallu dal: 60

**Mynediad**
Mae pob llawr yn y Pierhead yn gwbl hygyrch. I wneud cais i gynnal arddangosfa neu ddigwyddiad yn y Pierhead, ffoniwch y llinell archebu: 0845 010 5500.







## Tŷ Hywel

Siambr Hywel yw hen siambr drafod y Cynulliad. Mae'n lleoliad unigryw i gynnal digwyddiadau yn Nhŷ Hywel. Mae wedi'i henwi ar ôl Hywel Dda, a wnaeth y cyfreithiau cyntaf ar gyfer Cymru yn y ddegfed ganrif. Ers i'r Senedd agor yn 2006, mae Siambr Hywel wedi'i hadnewyddu a'i hail-agor fel siambr drafod bwrpasol ar gyfer pobl ifanc ac fel canolfan ddysgu ryngweithiol. Siambr Hywel oedd y cyntaf o'i fath yn Ewrop. Ers ei lansiad yn 2009, mae wedi bod yn lleoliad poblogaidd ar gyfer addysgu, cynadleddau a darlithoedd.


Siambr Hywel
Croeso
Welcome
Darganfod
Dadlau
Dewis

## Siambr Hywel

**Delfrydol ar gyfer:**

– Cynadleddau;
– Darlithoedd.

**Capasiti:**

Fel darlithfa: 60
Mae'r ystafell yn gallu dal: 100

**Cyfleusterau:**

– Ar ffurf Siambr drafod, gyda lle i 60 o gynrychiolwyr a pump o banelwyr;
– Darllenfa â meicroffon;
– Taflunydd a sgrin;
– Dwy sgrin teledu;
– Gliniadur;
– System sain integredig, sy'n cynnwys microffon ar gyfer pob person;
– System bleidleisio integredig;
– System gyfieithu.

**Mae Siambr Hywel ar gael fel lleoliad i ddigwyddiadau:**

Dydd Llun a Dydd Gwener 09.30–16.30
O Ddydd Mawrth i Ddydd Iau 17.30–20.00

**Mynediad**

Mae'r Siambr Hywel yn gwbl hygyrch.
I wneud cais i gynnal digwyddiad yn Siambr Hywel, ffoniwch y llinell archebu: 0845 010 5500.







## Y Senedd

Gellir cynnal digwyddiadau yn y Neuadd a'r Oriel. Mae'r ddwy lefel ar agor i'r cyhoedd yn ystod y dydd; maent felly yn lleoliadau gwych ar gyfer cynnal digwyddiadau sy'n targedu'r cyhoedd. Dim ond fin nos ac ar ôl i'r Cyfarfod Llawn orffen y gellir cynnal digwyddiadau ar gyfer gwesteion a wahoddwyd. Bryd hynny, mae'r Neuadd a'r Oriel yn lleoliadau gwych ar gyfer eich digwyddiad neu lansiad. Mae'r Neuadd yn lleoliad perffaith ar gyfer adloniant, ac o'r Oriel ceir golygfeydd gwych dros Fae Caerdydd, sef y cefndir perffaith i areithiau.





# Y Senedd

**Lleoliad delfrydol ar gyfer cynnal:**
– Derbyniadau;
– Digwyddiadau rhyngweithio;
– Stondinau gwybodaeth;
– Arddangosfeydd.

**Capasiti:**
Y Neuadd: 150
Yr Oriel: 100
Mae'r adeilad yn gallu dal: 200

**Cyfleusterau:**
– Llwyfan 6x2 medr;
– Darllenfa â meicroffon;
– Meicroffonau di-wifr;
– Meicroffonau gwifrog ychwanegol;
– Peiriant CD a DVD;
– System ar gyfer traddodi areithiau;
– Tair sgrîn symudol, gellir eu defnyddio â gliniadur.

**Gellir cynnal digwyddiadau yn y Senedd:**
Dydd Llun a Dydd Gwener 09.30–16.30
O Ddydd Mawrth i Ddydd Iau 08.00–20.00

**Mesuriadau y Senedd:**
Y gofod sydd ar gael yn y Neuadd:
15 x 9 metr

Y gofod sydd ar gael yn yr Oriel:
9 x 6 metr

Y gofod sydd ar gael i arddangosfeydd:
9 x 2 metr

**Mynediad**
Mae pob llawr yn y Senedd yn gwbl hygyrch. I wneud cais i gynnal digwyddiad yn y Senedd, ffoniwch y llinell archebu: **0845 010 5500**.







## Ystâd y Cynulliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i sicrhau bod gan bawb yr un mynediad i'n hadeiladau.

Mae'r cymhorthion a'r gwasanaethau canlynol ar gael i sicrhau bod ein holl ymwelwyr yn teimlo'n gyfforddus a'u bod yn cael croeso pan fyddant yn ymweld â'n hystâd:

- Mynediad ar lefel y ddaear i'r Pierhead a Thŷ Hywel a ramp mynediad/lifft i'r Senedd;
- Arwyddion braille drwy'r holl ystâd;
- Systemau dolen drwy'r holl ystâd;
- Toiledau hygyrch, gan gynnwys cyfleuster Changing Places yn y Senedd;
- Mae croeso i gŵn tywys ar yr ystâd;
- Mae cadeiriau olwyn ar gael i'w benthyca ar y safle;
- Mae ystafell weddïo/myfyrio ar gael yn y Senedd;
- Mae ystafell rhiant a phlentyn ar gael yn ogystal ag ystafell newid babanod;
- Mae swyddogion diogelwch a heddweision gwrywaidd a benywaidd ar gael.

## Sut i'n cyrraedd

### Bws
Mae bws plygu y Baycar yn gadael Gorsaf Heol-y-Frenhines Caerdydd, Plas Dumfries, Heol y Brodyr Llwydion, Heol Eglwys Fair neu Orsaf Ganolog Caerdydd bob 10 munud ac mae'n stopio yn Pierhead Street ac o flaen Canolfan Mileniwm Cymru sydd gerllaw'r Senedd. Mae bysiau rhif 7 ac 8 yn gadael Heol y Gamlas a Heol y Porth yn ôl eu trefn bob chwarter awr ac yn stopio ar Pierhead Street, taith fer (oddeutu 200 metr) o'r Senedd a'r Pierhead. Mae bws rhif 11 yn gadael Heol Eglwys Fair bob hanner awr i Mermaid Quay.

### Trên
Mae gwasanaethau'n rhedeg bob 20 munud o Orsaf Heol y Frenhines, Caerdydd i Orsaf Bae Caerdydd. Mae'r orsaf ychydig funudau o'r Senedd a Glanfa'r Cynulliad.

### O'r Draffordd
Gadewch yr M4 ar gyffordd 33, dilynwch yr A4232 i gyfeiriad Bae Caerdydd, a dilynwch yr arwyddion i Cynulliad Cennedlaethol Cymru, CF99 1NA.

### Parcio Car
Mae'r maes parcio agosaf yng Nghei'r Forforwyn nid nepell o Lanfa'r Cynulliad. Mae hwn yn faes parcio talu ac arddangos ac mae staff diogelwch yn gweithio yno drwy'r adeg. Mae maes parcio talebau y tu allan i'r Eglwys Norwyaidd.

### Parcio Bws
Mae map ar gael gan linell archebu'r Cynulliad yn nodi ble y gall bysiau adael ymwelwyr.

### Beicio/Cerdded
Mae llwybr 'Taith Taf' yn rhedeg o Aberhonddu ar hyd yr afon, drwy ganol y brifddinas, cyn dod i'w derfyn ger y Basn Hirgrwn y tu allan i'r Senedd ym Mae Caerdydd. Hefyd, mae llwybr i feicwyr a cherddwyr ar hyd yr A4232 o Barc Manwerthu Bae Caerdydd.